# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Blynyddol Nos Lun 20 Mai 2019

1. Estynwyd groeso i bawb gan y clerc

2. Presennol - AMJ, GM, WMG, CJ, DJ, GO, DG

3. Ymddiheuriadau - Carol Jones, Richard Jones, Huw Edwards.

4. Datgan Diddordeb - WMG, GM + AMJ (eitemau Tryslwyn)

5. Dewis Swyddogion / Rheolau Sefydlog / Rheolau Cyllidol 2019/20
   - i) Cadeirydd - Huw Edwards wedi ei ethol. Er nad oedd yn bresennol nodwyd yn ei ymddiheuriadau y byddai'n fodlon cael ei ethol fel Cadeirydd neu parhau fel is-gadeirydd.
   - ii) Is-gadeirydd / Swyddog Cyllid Cyfrifol - Dafydd Jones wedi ei ethol.
   - iii) Swyddogion ar bwyllgorau allanol
   - iv) Hawl i'r clerc a'r cadeirydd ddelio a biliau sefydlog rhwng cyfarfodydd - AMJ yn cynnig ac DJ yn eilio
   - v) Cytuno i ohurio cyfarfod os oes dim 'quorum' - cytunwyd yn unfrydol
   - vi) Iaith swyddogol y Cyngor Cymuned fydd y Gymraeg - cytunwyd yn unfrydol

6. Darllen ac arwyddo cofnodion cyfarfod 1 Ebrill 2019 - GM yn cynnig fod y cofnodion yn gywir ac DJ yn eilio.

7. Materion yn codi
   - i) Swydd clerc - parhau i wneud ymholiadau.
   - ii) Dau sedd wag - DG i holi beth yw'r camau gyda'r cyngor Sir.
   - iii) Awdit Mewnol - Alun Foulkes a Debra Griffiths i gyfarfod ac adrodd nol yng nghyfarfod mis Mehefin.
   - iv) Awdit Allanol
   - v) Archwiliad o'r Cae Chwarae gan ROSPA ym mis Mehefin (e-bost wedi ei rannu 16/5)

8. Gwybodaeth
   - i) Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned - dyddiad Cau 19/5/19 (e-bost wedi ei rannu 16/5)
   - ii) Cynllun Adfywio Gogledd Mon - sylwadau (e-bost wedi ei rannu 16/5)
   - iii) Cytuno at hyfforddiant y flwyddyn i'r clerc a'r aelodau ac adrodd nol i'r Pwyllgor Safonnau erbyn 31/7/19.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

DIM

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

DIM

10. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Cyflogaeth Clerc - cadarnhau
b) Mon Grass Cutting - £160 - cadarnhau
c) Yswiriant - Zurich Municipal - £1442.77 - cadarnhau

11. **Unrhyw Fater Arall**

Menter Mon - cais drwy AMJ. Caniatad i ddefnyddio enw Cyngor Cymuned Rhosybol - Pawb yn hapus i hyn ddigwydd. AMJ i ymateb i Menter Mon.

Cyflwr y ffordd ger Capel Lleuthdu - AMJ i wneud ymholiadau gyda'r Adran Priffyrdd.

**Trysglwyn**
* Cais gan y Cylch Meithrin am £350.00 tuag at gostau trip - cynnig gan bawb i gymeradwyo'r cais yma'n llawn.

* Cais gan Bwyllgor y Neuadd am rodd ariannol tuag at brynu piano newydd i'r neuadd. Cytunwyd yn unfrydol i roi cyfraniad o £1,500.